Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Yr Arglwydd Elis-Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

7 Tachwedd 2019

Annwyl Dafydd

Rheoliadau'r Rhaglen Ewrop Greadigol a'r Rhaglen Ewrop i Ddinasyddion (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019

Gwnaethom ystyried datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rheoliadau uchod yn ein cyfarfod ar 4 Tachwedd 2019. Er inni nodi'r esboniadau yn y datganiad ysgrifenedig am gyllid ar gyfer cyfranogwyr o Gymru yn rhaglen Ewrop Creadigol a rhaglen Ewrop i Ddinasyddion, gwnaethom hefyd nodi'r esboniad ynghylch sut y cafodd y Rheoliadau eu gwneud yn ddiarwybod i Lywodraeth Cymru a heb ei chydsyniad.

Rydym yn cydnabod yr esboniad bod Llywodraeth y DU wedi torri'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn anfwriadol yn yr achos hwn, ond rydym hefyd yn nodi ei bod yn ymddangos i Lywodraeth Cymru ddod yn ymwybodol o'r toriad hwn rywbryd rhwng mis Mawrth a 16 Gorffennaf 2019.

Nid yw'n eglur i ni pam na hysbyswyd y Cynulliad Cenedlaethol tan 29 Hydref 2019 fod y Cytundeb Rhynglywodraethol wedi cael ei dorri. Felly, byddem yn croesawu esboniad pellach yn hyn o beth cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir

Mick Antoniw AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565